Y Sioe
# ADDYSG
Genedlaethol

Yn ymgorffori'r **Sioe AAA/ADY**

**HYDREF 2il 2026**

**UTILITA ARENA CAERDYDD**

EWCH I'N GWEFAN!

# Llyfryn Sioe



**50% I FFWRDD**

Archebion grŵp o 10+

**nes Mehefin 26ain 2026**

**Gweithio gyda:**

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Agored Cymru

NAHT THE SCHOOL LEADERS' UNION

Urdd

CYDAG

NSM Training & Consultancy

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY 1884

www.sioeaddysggenedlaethol.com | einir@sioeaddysggenedlaethol.com | 01766496830

# RHESWM I FYNYCHU'R SIOE!





*Mae Ysgol yr Eifl wedi defnyddio diwrnod HMS llynedd a'r flwyddyn flaenorol i fynychu'r Sioe Addysg yn Llandudno er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol athrawon a chymorthyddion yr ysgol.* ***Mae'r seminarau wedi bod yn arbennig o ddiddorol a hwyliog ac mae'r dewis wedi bod yn eang ac o ganlyniad wedi ein galluogi i adnabod meysydd perthnasol i gefnogi ein blaenoriaethau ysgol e.e. seminarau sy'n cefnogi iechyd a lles staff.***

*Mae'n* ***ddiwrnod gwych sydd yn rhoi cyfle i staff gwahanol ysgolion ddod at ei gilydd am sgwrs a phaned yn ystod yr amser rhydd rhwng y seminarau ac hefyd i allu crwydro'r stondinau.***

*Wrth* ***grwydro'r stondinau llynedd cefais gyfle i gyfarfod Osian a Catrin yn stondin Ein Llais Ni.*** *Yn dilyn y sgwrs fe gawsom fel ysgol ein hysgogi i fod yn rhan o Gynllun 'Ein Llais Ni' er mwyn datblygu sgiliau iaith a llafaredd yn yr ysgol. Mae'r cynllun yma yn rhan greiddiol o'n blaenoriaeth llafaredd eleni.*









## YDYCH CHI'N ARCHEBU AR GYFER EICH YSGOL, COLEG NEU FEITHRINFA GYFAN? RYDYM WEDI GWNEUD Y BROSES YN SYML.

1. Sganiwch y côd QR neu ewch i'r ddolen isod i gael mynediad at y ffurflen archebu
   **https://nationaleducationshow.com/cardiff-group-booking-form/?lang=cy**
2. Dylai pob mynychwr lenwi rhan uchaf y ffurflen a dewis y seminarau o'u dewis.
3. Yn olaf, sganiwch y ffurflenni wedi'u cwblhau a'u hanfon yn ôl at einir@sioeaddysggenedlaethol.com

## PWYSIG!

Byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau gan Eventbrite o fewn pythefnos i gyflwyno eich ffurflen gofrestru, felly **cadwch yr e-bost hwn yn ddiogel.**

Bydd angen i chi sganio'r côd QR o'ch e-bost cadarnhau gwreiddiol pan fyddwch yn cyrraedd y sioe.

**Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwirio hyn ymlaen llaw ac yn cysylltu â ni ar unwaith os nad ydych wedi derbyn eich e-bost cadarnhau archeb.**

Os nad oes gennych eich e-bost cadarnhau / côd QR, bydd angen i chi ymweld â'r 'Ddesg Wybodaeth' ar y diwrnod, â allai ohirio eich mynediad.

## DIWRNOD Y SIOE! RYDYM NI WEDI GWNEUD DIWRNOD Y SIOE YN HAWDD I CHI!

Pan fyddwch yn sganio eich côd QR wrth y ddesg gofrestru, bydd eich bathodyn yn cael ei argraffu ar eich cyfer. Ar gefn eich bathodyn, fe welwch dabl defnyddiol sy'n dangos teitlau eich seminarau a rhifau'r ystafelloedd.
Defnyddiwch hwn fel eich canllaw personol i lywio o amgylch y lleoliad a chyrraedd eich seminarau'n rhwydd.

**AWGRYM DA**
Os yw rhif eich ystafell seminar yn dechrau gyda'r rhif 1, mae ar y llawr cyntaf!
Os yw rhif eich ystafell seminar yn dechrau gyda'r rhif 2, mae ar yr ail lawr!

**GWNEWCH GOPI I POB AELOD STAFF OS GWELWCH YN DDA.**

**HYD 2il 2026**
**UTILITA ARENA CAERDYDD**

Enw ______________________________ Ysgol / Sefydliad ______________________________

Cyfeiriad ebost______________________________ Teitl Swydd ______________________________

**(Sicrhewch fod eich cyfeiriad e-bost yn un unigol fel y gall Agored Cymru tystysgrif am ddyfarnu oriau DPP).**

**Marciwch y tabl isod gyda'r seminarau yr hoffech eu mynychu.**

Seminarau ADY

**PWYSIG!**

| | 09:00 - 09:50 | 10:30 - 11:20 | 12:00 - 12:50 | 13:30 - 14:20 | 15:00 - 15:50 |
|---|---|---|---|---|---|
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Strategaethau ymarferol i gynyddu cyfranogiad rhieni yn yr ysgol<br>Nicola S. Morgan | 'Guru' Ymddygiad<br>Nicola S. Morgan | Grymuso llythrennedd drwy dechnoleg creadigol<br>Lee Parkinson (Mr P MBE) | Adnoddau technolegol i drawsnewid eich dysgu<br>Lee Parkinson (Mr P MBE) | O ymarfer cynhwysol i ddiwylliant cynhwysol - Dull ymarferol o gefnogi pob dysgwr<br>Huw Lloyd |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | 'Cracking Numeracy' – dysgu rhifedd trwy ddull ffoneg<br>Ben Harding | Atal llosgi allan mewn addysg: Cefnogi lles staff<br>Platfform | O wybodaeth am drawma i ymateb i drawma<br>Dr Coral Harper | Addysgu a dysgu metawybyddiaeth a hunanreoleiddio: Pecyn cymorth i athrawon<br>Karen Ferguson | 'From Add-On to All-In': Creu a gwreiddio diwylliannau sy'n cadarnhau niwroamrywiaeth yn y blynyddoedd cynnar<br>Cheryl Warren |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Pwysigrwydd cydnabod a chynnwys staff niwroamrywiol<br>Tigger Pritchard | Tri arfer mewn arweinyddiaeth sy'n gwneud bywyd ysgol yn anoddach (ac yn wastraff ar eich cyllideb) — a beth i'w wneud yn lle hynny<br>Sonia Gill | Hyfforddiant mewn sgiliau cymdeithasol ar gyfer plant awtistig. Sut ydych chi wir yn ffitio i mewn?<br>Tigger Pritchard | Eich llwybr cyflymaf i wella'ch ysgol — ac mae bron yn rhad ac am ddim<br>Sonia Gill | *'Burnout, broken belief systems & the silent collapse of educator confidence: The 2027 reset you cannot ignore'*<br>Courtney Orange |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Addysgu a dysgu mewn byd niwroamrywiol<br>Nina Jackson | "Wellbeing is a Work of Heart" – Gofalu am eich lles eich hun er mwyn i chi allu gofalu am eraill.<br>Nina Jackson | Arwain ystafell ddosbarth niwroamrywiol.<br>Colin Foley | Sut i greu tîm hapus<br>Dave James | Newyddion ffug! Grymuso myfyrwyr mewn oes o gamwybodaeth – Ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ar gyfer yr ystafell ddosbarth<br>Nicky Hagendyk |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Beth all plentyn 4 oed ei ddysgu i chi am wahaniaethau cyfathrebu awtistig<br>Dr Jo Grace | Hunaniaeth awtistig – Iechyd meddwl a chorfforol<br>Dr Jo Grace | Cyfathrebu gyda dylanwad: Helpu athrawon i ysbrydoli, dylanwadu a chael eu clywed<br>Susan Heaton-Wright | Pam mae modelau rôl Cymreig yn bwysig<br>Ian Timbrell | Mesur llwyddiant mewn ataliad ac ymyrraeth briodol<br>Karen Wilkinson |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | 'Clicks': Helpu pobl ifanc i fod ar eu gorau ar-lein<br>Natasha Devon MBE | Sut i fod yn berson hapus<br>Dave James | *'From drifting to shifting as leaders-conscious leadership and how it works in our organisations'*<br>Julie Rees | Edrych ar siarad 'dewisol' fel hunaniaeth gyfathrebu mewn ysgolion<br>Kim Mears | Datblygu gofodau cynhwysol a dulliau dysgu addasol ar gyfer dysgwyr dwyieithog<br>Lisa Pinkerton |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Asesu ar gyfer addysgu ymyrraeth: Anhawster dysgu penodol mewn mathemateg<br>Rob Jennings & Cat Eadle | Deall a chefnogi plant a phobl ifanc gyda diagnosis deuol o ADHD ac awtistiaeth.<br>Colin Foley | Adnabod Anghenion Addysgol Arbennig a'i effaith ar gynnydd, adnoddau a llesiant<br>Emma Pinnock | Arwain darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) rhagorol<br>Emma Pinnock | Cyflwyniad i Addysg Cwtch – codi ymwybyddiaeth a hyder o ran 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb'<br>Sarah Yates a Kayleigh Lloyd Thomas |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | *'Getting under the skin of it: Applying an Anti-Racist Lens to Curriculum Design'*<br>Leon Andrews | Cefnogi presenoldeb i ddisgyblion sy'n derbyn 'pupil premium'<br>Stephen C. Burnage | Deall casineb at wragedd (misogyny) a diwylliant 'incel'<br>Ella Savell-Boss | Rheoli'r storm berffaith: Presenoldeb, ymddygiad, ac iechyd meddwl<br>Stephen C. Burnage | Estyn: ychwanegu gwerth at y system addysg (Cymraeg)<br>ESTYN |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Creu amgylchedd ddysgu cynhwysol: Yr Ymdeimlad o Berthyn ar gyfer bob dysgwr<br>Joanne Lockwood | 10 ffordd i wella ysgrifennu yn eich ysgol<br>Simon Blower | Gwella darllen ar gyfer pawb drwy ddeallusrwydd artiffisial (AI): Dileu rhwystrau, codi disgwyliadau<br>Dr Sarah Moseley | Y tu hwnt i ymddygiad: Gweld gwir ystyr mewn cyfathrebu niwroamrywiol yn y blynyddoedd cynnar<br>Cheryl Warren | |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Rhythm, rheoliad a thrwsio: Defnyddio technegau therapi cerdd ar gyfer adfer o drauma.<br>Joy Dando | Cyflwyno a siarad gyda hyder a dylanwad<br>Susan Heaton - Wright | Rheoli'r ystafell ddosbarth: yr allwedd i hunan-arweinyddiaeth<br>Dr Neil Hawkes | *'GarageBand'* ar gyfer llafaredd: Llais creadigol, sgwrs a llythrennedd trwy dechnoleg cerdd.<br>Alex Rees | |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Hapusrwydd fel iaith a strategaeth – Creu diwylliant ystafell ddosbarth<br>Leah Evans | Dyslecsia a fi – deall dyslecsia ar gyfer staff addysg<br>Karen Ferguson | Meithrin cymeriad a sgiliau hanfodol drwy ddysgu yn yr awyr agored<br>Nigel Miller | Llesiant mewn natur: ail-gysylltu disgyblion yng nghanol heriau ôl-bandemig<br>Nigel Miller | |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Y Sanctum Mewnol: Mynd i'r afael ag unigrwydd mewn ysgolion a cholegau<br>Mike Pagan | Ffyrdd o rymuso eich CADY (ALNCO/SENCO)<br>Ginny Bootman | Adeiladu eich tîm lles meddwl '(Mental Wealth') ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gryf<br>Mike Pagan | Astudiaeth Achos<br>Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin | |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Archwilio diogelu cyd-destunol<br>Ella Savell-Boss | Awgrymiadau gwych ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol<br>Gareth Coombes | *'Myth busting AAC and what that means for supporting autistic children in your classroom'*<br>Kim Mears | Trochi effeithiol yn y blynyddoedd cynnar<br>Dr Sian Wyn Siencyn | |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Gweithdy dwylo niferus<br>Adnodd | Cymraeg creadigol: Patrymau iaith bob dydd<br>Carys Gwent | Llyfrau darllen er pleser i blant ag anghenion dysgu ychwanegol<br>Cyngor Llyfrau | Estyn: Ychwanegu gwerth at y system addysg (Saesneg)<br>ESTYN | |
| YSTAFELL I'W GADARNHAU | Beth sydd cyn cam cynnyddd 1? Addasu darpariaeth dysgu sylfaen i gyd-fynd a'r Cwricwlwm lleoliadau nas cynhelir<br>Rhodri Gwyn Jones | Y big bocs bwyd<br>Helen Rogers | Pontio'r bwlch llythrennedd<br>Atebol a CYDAG | | |

***PWYSIG: COFIWCH EDRYCH AR EIN GWEFAN AM Y FFURFLEN ARCHEBU DIWEDDARAF GAN FOD RHAIN YN NEWID YN DDYDDIOL!**

**Ebostiwch rhain i ni: einir@sioeaddysggenedlaethol.com**

SGANIWCH

**Pris seminar os yn archebu'n fuan £10.00 + TAW (nes Mehefin 26ain 2026) | £15.00 + TAW pris arferol | £20.00 + TAW - archebu ar y diwrnod. 50% i ffwrdd archebion grŵp dros 10+ (nes Mehefin 26ain 2026)**

**PWYSIG: NI ALLWN WNEUD UNRHYW NEWID I'CH SEMINAR AR OL 3YH DYDD GWENER, MEDI 25AIN 2026**

**Drwy gyflwyno'r ffurflen hon rydych chi'n cytuno i'n telerau ac amodau sydd ar ein safwe: www.nationaleducationshow.com/terms-conditions**

# Seminarau a Siaradwyr

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

09:00 - 09:50

## Strategaethau ymarferol i gynyddu cyfranogiad rhieni yn yr ysgol

Mae ymgysylltiad rhieni yn un o'r dylanwadau mwyaf pwerus ar ddysgu plentyn a'i lwyddiant hirdymor. Pan fydd ysgolion a theuluoedd yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, mae'r canlyniadau'n drawsnewidiol – gan godi safonau, gwella ymddygiad, a chryfhau'r gymuned ysgol gyfan.
Mae'r seminar hwn yn cynnig cyfoeth o strategaethau profedig a dibrofwyd i'r cyfranogwyr er mwyn adeiladu partneriaethau cryfach gyda rhieni a gofalwyr. Wrth dynnu ar ddulliau sydd wedi'u treialu'n helaeth mewn amrywiaeth eang o leoliadau, mae'r sesiwn yn canolbwyntio ar ddeall pwysigrwydd ymgysylltu teuluol, cynyddu cyfranogiad ystyrlon gan rieni, a darparu tystiolaeth o'r canlyniadau cadarnhaol.



Cyflwynir gan:

**Nicola S. Morgan**
Ymgynghorydd Addysg, Awdur a Siaradwr TEDx

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

## 'Cracking Numeracy' – dysgu rhifedd trwy ddull ffoneg

Mae'r sesiwn hon ar gyfer athrawon/ysgolion sydd heb 'gracio'r system' eto, ac sy'n sicrhau bod plant bob amser ymateb yn gyflym a chywir wrth brosesu rhif sylfaenol. Bydd yn dangos sut mae dull strwythuredig systematig - tebyg i ffoneg - yn allweddol i osod sylfeini hanfodol ar gyfer darpariaeth mathemateg ar gyfer yr holl ysgol. Bydd cyffelybiaethau pwysig yn cael eu gwneud gyda ffoneg o ran sut mae dysgwyr yn llunio gwybodaeth newydd a beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer addysgeg, asesu a dulliau gweithredu. Bydd y sesiwn hon hefyd yn dangos sut y gall adnabod a rhoi cynnwys allweddol mewn trefn arwain at weithredu a chreu effaith gryfach, gan helpu ysgolion i symud tuag at ganlyniadau mathemateg cyson ac effeithiol.



Cyflwynir gan:

**Ben Harding**
Cyfarwyddwr y Rhaglen- Winning With Numbers

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

SEMINAR ADY

## Pwysigrwydd cydnabod a chynnwys staff niwroamrywiol

Rydym yn aml yn canolbwyntio ar ein disgyblion niwroamrywiol, ond beth am ein staff, ein Neurokin a'n cydweithwyr? Pa fath o neges ydyn ni wir yn ei roi i ddisgyblion os nad ydyn nhw'n gweld modelau rôl a'r syniad o gael eu derbyn yn ein hamgylcheddau addysgol? Edrych ar pam mae hyn mor bwysig, a rhai syniadau ar sut i gymryd camau i greu amgylchedd diogel a niwro-gynhwysol i bawb.



Cyflwynir gan:

**Tigger Pritchard**
Hyrwyddwr 'Neuroaffirming', Ymgynghorydd a Hyfforddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

09:00 - 09:50

SEMINAR ADY

## Addysgu a dysgu mewn byd niwroamrywiol

Mae niwroamrywiaeth yn derm cynhwysol sy'n cydnabod y ffaith bod gan bobl â chyflyrau dysgu brofiad unigryw o'r byd, sy'n gallu dod â llawer o fanteision. Efallai y byddent yn wynebu heriau mewn rhai meysydd ond yn rhagori mewn eraill. Dylid dathlu amrywiaeth meddyliol dynol! Yn ystod y sesiwn hon, bydd Nina Jackson, athrawes niwroamrywiol ei hun yn rhannu strategaethau, sgiliau a syniadau i gefnogi dysgu ac addysgu mewn byd niwroamrywiol.



Cyflwynir gan:

**Nina Jackson**
Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Llesiant Rhyngwladol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

09:00 - 09:50

SEMINAR ADY

## Beth all plentyn 4 oed ei ddysgu i chi am wahaniaethau cyfathrebu awtistig

Mae gwahaniaethau mewn ffurfiau cyfathrebu llafar a di-iaith yn cael eu hadnabod mewn diagnosis o awtistiaeth.
Pan oedd mab Jo yn 4 oed, ysgrifennodd lyfr o'r enw 'My Mummy is Autistic', ac ynddo mae'n edrych ar y gwahaniaethau prosesu iaith y mae Jo (sy'n awtistig) yn eu profi.
Bydd y seminar yn edrych ar sut mae ei ddealltwriaeth i bethau fel oedi mewn prosesu, chwarae, a chyfathrebu diwylliannol traddodiadol yn berthnasol yn yr ystafell ddosbarth ac yn y cartref.



Cyflwynir gan:

**Dr Jo Grace**
Ymgynghorydd – The Sensory Projects

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

09:00 - 09:50

## "Clicks": Helpu pobl ifanc i fod ar eu gorau ar-lein

Mae mwy o ddisgwyliadau nag erioed o'r blaen i ysgolion ddysgu'r sgiliau meddwl beirniadol a llythrennedd gwyddonol sydd eu hangen ar bobl ifanc i lywio'r byd ar-lein. Ond beth yw'r rhain? A sut gellir eu hymgorffori yn yr ystafell ddosbarth? Yn y seminar bydd Natasha Devon MBE (awdur "Clicks: How to Be Your Best Self Online for teenagers and educator on social media for young people") yn amlinellu rhai o'r egwyddorion allweddol a chanllawiau ymarferol i athrawon a staff.
Gan gynnwys: Deall sut mae pobl ifanc yn gweld y cyfryngau cymdeithasol, eu helpu i fod yn ddefnyddwyr gweithredol a mynd i'r afael â radicaleiddio/casineb menywod.



Cyflwynir gan:

**Natasha Devon MBE**
Ymgyrchydd Iechyd Meddwl ac Addysgwr, Awdur a Darlledwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Cynradd (blynyddoedd 5 a 6), Uwchradd, Addysg Bellach.**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

09:00 - 09:50

## Asesu ar gyfer addysgu ymyrraeth: Anhawster dysgu penodol mewn mathemateg

Golwg ar y camau presennol sy'n gysylltiedig â chasglu tystiolaeth a chael asesiad sy'n cynnwys diagnosis o Dyscalculia Rhifyddol neu Anhawster Dysgu Penodol mewn mathemateg (SpLD). Pwyslais ar bwysigrwydd asesu ar gyfer ymyrraeth i gefnogi cynllun ymyrraeth addysgu.
A oes ots os oes gan ddysgwr Dyscalculia Rhifyddol neu fod ei sgiliau mathemateg yn wan? Cwestiwn pwysig, oherwydd i lawer o bobl nid yw tarddiad eu problem yn bwysig o gwbl. Yr hyn sy'n bwysig yw sut y gall yr unigolyn gael cymorth i wella eu sgiliau mewn mathemateg. Dydy'r ffaith bod Seicolegydd Addysgol yn datgan bod unigolyn yn Dyscalculic ddim yn effeithio ar allu'r person mewn mathemateg, oni bai bod rhywbeth arall yn digwydd — sef cynllun ymyrraeth addysgu wedi'i dargedu.



Cyflwynir gan:

**Rob Jennings & Cat Eadle**
Cyd-sylfaenwyr, The Dyscalculia Network

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

09:00 - 09:50

## *'Getting under the skin of it: Applying an Anti-Racist Lens to Curriculum Design'*

Mae'r gweithdy rhyngweithiol hwn yn symud y tu hwnt i gynhwysiant arwynebol ac sy'n arwain at ddylunio cwricwlwm ystyrlon trwy lens gwrth-hiliol. Byddwn yn archwilio pwysigrwydd dewis yr adnoddau 'cywir' sy'n adlewyrchu lleisiau a phrofiadau amrywiol ac yn dangos strategaethau ymarferol ar gyfer ymgorffori bod yn wrth-hiliol mewn dysgu ac addysgu. Bydd cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn cyfres o weithgareddau sy'n olrhain hanes sydd yn aml iawn yn gudd a dan yr wyneb, ac yn darganfod cyfleoedd i sicrhau fod bod yn wrth-hiliol yn llinyn pendant drwy eu cwricwlwm.
Ymunwch â ni i ddatblygu dulliau ymarferol ar gyfer trawsnewid eich cwricwlwm yn offeryn pŵerus ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol ac addysg gynhwysol.



Cyflwynir gan:

**Leon Andrews**
'National Outreach Teacher DARPL'

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Cynradd, Uwchradd ac Addysg Bellach. Bydd elfennau'n berthnasol i flynyddoedd cynnar hefyd.**

09:00 - 09:50

## Creu amgylchedd ddysgu cynhwysol: Yr Ymdeimlad o Berthyn ar gyfer bob dysgwr

Mae'r seminar diddorol hon, dan arweiniad Joanne Lockwood o 'SEE Change Happen', yn edrych ar sut y gall ysgolion a cholegau greu diwylliannau gwirioneddol gynhwysol lle mae pob dysgwr - gan gynnwys y rhai ag ADY - yn teimlo'n werthfawr ac yn cael cefnogaeth. Trwy adrodd straeon, profiadau bywyd a strategaethau ymarferol, bydd Joanne yn tynnu sylw at sut mae meithrin cynhwysiant, perthyn a diwylliant positif fydd o fudd i staff a myfyrwyr fel ei gilydd. Bydd mynychwyr yn cael cipolwg ar wahaniaethu anymwybodol, iaith ac ymddygiadau mewn arweinyddiaeth sy'n hyrwyddo perthyn, gan sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc y cyfle i ffynnu'n academaidd ac yn emosiynol.



Cyflwynir gan:

**Joanne Lockwood**
Cyfarwyddwr – SEE Change Happen

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

SEMINAR ADY

09:00 - 09:50

## Rhythm, rheoliad a thrwsio: Defnyddio technegau therapi cerdd ar gyfer adfer o drauma.

Mae trauma'n effeithio ar allu plant i ffocysu, rheoli emosiynau ac ymgysylltu hefo dysgu.
Mae Rhythm yn adnodd cryf a hawdd sy'n cael ei ddefnyddio mewn therapi cerdd a gall adfer y synnwyr o fod yn ddiogel, ymgysylltu a hunan- reolaeth. Bydd y seminar rhyngweithiol yn cyflwyno athrawon i'r wyddor o beth sydd tu ôl i rhythm a thrauma, ac yn eu darparu hefo strategaethau yn seiliedig ar rhythm i adeiladu amgylchedd ddysgu sy'n sensitif i trauma.



Cyflwynir gan:

**Joy Dando**
Therapydd Cerdd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

09:00 - 09:50

## Hapusrwydd fel iaith a strategaeth – Creu diwylliant ystafell ddosbarth

Mae hapusrwydd yn iaith ac yn strategaeth sy'n llunio diwylliant yr ystafell ddosbarth.Byddwch yn gweld sut mae emosiynau, 'gratitude circles', Dyddlyfrau Hapusrwydd, a gemau yn meithrin cysylltiad, ymddiriedaeth, a rheoli ymddygiad. Byddwch yn gweld sut mae arafu a gweu cyfnodau o orffwys i rythm y dydd yn helpu plant i anadlu allan, teimlo'n ddiogel, a ffynnu. Gyda 20 mlynedd o brofiad addysgu fel Hyfforddwr Hapusrwydd, darganfyddwch sut mae'r arferion mwyaf syml yn troi'n berthnasoedd anhygoel, gan droi hapusrwydd yn elfen o berthyn a llwyddiant.
Effaith: Bydd addysgwyr yn cael gweithgareddau parod sy'n ymgorffori hapusrwydd, yn meithrin perthynas, ac yn creu ystafelloedd dosbarth hyderus a chytún.



Cyflwynir gan:

**Leah Evans**
Joy Coach

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

09:00 - 09:50

## Y Sanctum Mewnol: Mynd i'r afael ag unigrwydd mewn ysgolion a cholegau

Nid yw unigrwydd mewn addysg yn aml yn ymwneud â bod ar eich pen eich hun - mae'n ymwneud â delio â gormod o bethau heb y gefnogaeth briodol. Mae'r sesiwn hon yn cyfuno'r syniadau allweddol o 'Mental Wealth', 'The Mental Wealth Scorecard', a '7 Pillars of Self-Care.' Byddwch yn dysgu sut i adeiladu eich Sanctum Mewnol : Cylch Aur ('Golden Circle') o bobl sy'n amddiffyn llesiant, yn annog adfyfyrio gonest , ac yn cryfhau gwydnwch proffesiynol. Bydd addysgwyr yn dysgu sut i asesu pwy sydd wir yn eu cefnogi, pwy sy'n eu herio, adnabod ble mae'r bylchau, a sut i adeiladu ecosystem bersonol sy'n gwneud y swydd — a bywyd — yn haws i'w lywio.



Cyflwynir gan:

**Mike Pagan**
Rheolwr Gyfarwyddwr – 'Breaking Frontiers Ltd'

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

## 09:00 - 09:50

### Archwilio diogelu cyd-destunol

Archwiliwch risgiau y tu hwnt i'r cartref drwy ddeall sut mae grwpiau cyfoedion, dylanwadau ar-lein ac amgylcheddau lleol yn llywio pryderon diogelu. Adnabod ffactorau allanol sy'n cynyddu bregusrwydd, gan gynnwys ymwneud â gangiau, ecsbloetio, a deinameg cymdeithasol sy'n niweidiol. Deall sut mae gwahanol amgylcheddau'n effeithio ar ddiogelu, a phwysigrwydd dull cymuned gyfan. Datblygu strategaethau diogelu i sicrhau ymyrraeth effeithiol ac amddiffyn hirdymor i blant a phobl ifanc.



Cyflwynir gan:

**Ella Savell-Boss**
Ymgynghorydd Diogelu

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 09:00 - 09:50

### Gweithdy dwylo niferus

- Ymlaciwch a myfyriwch yn ein cornel dawel, gan bori detholiad wedi ei guradu o adnoddau print sy'n cefnogi dysgu cynhwysol a dwyieithog.
- Camwch i mewn i stori gyda'n profiad realiti rhithwir, gan ymgolli mewn pentref Cymraeg ffuglennol sy'n hyrwyddo datblygiad iaith.
- Symud Siriol, parth symud wedi'i ysbrydoli gan natur sy'n cefnogi lles a rheoleiddio emosiynol trwy ymarferion syml, hygyrch.
- Creu a chysylltu yn y comin greadigol, lle bydd cyfranogwyr yn cydweithio ar fapio cof a gweithgareddau creu ffilmiau byrion sy'n dathlu llais dysgwyr ac adrodd straeon.
- Darganfyddwch beth sydd nesaf yn yr orsaf arloesi, lle rydym yn arddangos allbynnau cyffrous wedi'u datblygu mewn partneriaeth â dysgwyr ac addysgwyr ledled Cymru.



Cyflwynir gan:

**Dr Ali Hanbury, Carys John, Fflur Dafydd, Rachel Lloyd, Dafydd Morris**
Adnodd

Iaith: **Cymraeg a Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 09:00 - 09:50

CYDAG

### Beth sydd cyn cam cynnyddd 1? Addasu darpariaeth dysgu sylfaen i gyd-fynd a'r Cwricwlwm lleoliadau nas cynhelir

Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi argymell ysgolion i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer lleoliadau Meithrin a ariennir nas-gynhelir yn y blynyddoedd cynnar. Bydd y seminar yn cyflwyno sut aeth Ysgol Eifion Wyn ati i newid eu darpariaeth dysgu sylfaen i gyd-fynd â gofynion y cwricwlwm hwn gan gynnwys yr amgylchedd, oedolion sy'n galluogi dysgu a profiadau sy'n ennyn diddordeb. Hefyd, bydd y seminar yn cyflwyno sut aeth yr ysgol ati i bontio'r disgyblion o'r Cwricwlwm Meithrin i Cwricwlwm i Gymru.



Cyflwynir gan:

**Rhodri Gwyn Jones**
CYDAG

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

### 'Guru' Ymddygiad

Mae pob athro yn gwybod y gall ymddygiad ymharu neu dorri gwers. O sgwrsio cyson a tharfu lefel isel i sefyllfaoedd mwy heriol, gall rheoli dosbarth wrth gadw'r dysgu ar y trywydd iawn deimlo'n llethol.
Yn y seminar rhyngweithiol hwn, fe welwch sut i gamu i'ch rôl fel 'Guru' Ymddygiad – yn dawel, yn hyderus, ac yn barod gyda strategaethau sy'n gweithio'n wirioneddol mewn ystafelloedd dosbarth go iawn. Mae'r sesiwn yn llawn technegau ymarferol y gallwch eu defnyddio ar unwaith, gyda ffocws ar adnabod yr arwyddion cynnar o darfu, adennill ffocws heb wrthdaro, a chreu hinsawdd ddosbarth gadarnhaol sy'n hyrwyddo parch ac atebolrwydd.



Cyflwynir gan:

**Nicola S. Morgan**
Ymgynghorydd Addysg, Awdur a Siaradwr TEDx

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

### Atal llosgi allan mewn addysg: Cefnogi lles staff

Mae athrawon yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio'r amodau i genedlaethau'r dyfodol ddysgu, tyfu a ffynnu. Er y gall gweithio ym maes addysg fod yn waith hynod ystyrlon, daw hefyd â phwysau parhaus a all gronni'n dawel dros amser. Gall llwythi gwaith trwm, gofynion emosiynol cyson, a chymhlethdod y berthynas â disgyblion, rhieni a chydweithwyr adael ychydig iawn o le i bobl ofalu am eu lles eu hunain, gan gynyddu'r risg o straen a llosgi allan.
Mae'r seminar hwn yn archwilio achosion sylfaenol llosgi allan ac yn cynnig dulliau ymarferol, ataliol i gefnogi lles staff.



Cyflwynir gan:

**I'w gadarnhau**
Platfform

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

### Tri arfer mewn arweinyddiaeth sy'n gwneud bywyd ysgol yn anoddach (ac yn wastraff ar eich cyllideb) — a beth i'w wneud yn lle hynny

Mae rhai arferion mewn arweinyddiaeth yn gwneud bywyd ysgol yn fwy llyfn — ac mae rhai yn wastraff amser, arian ac egni. Yn y sesiwn ymarferol, hwyliog hon, mae Sonia Gill yn dadansoddi tri arfer cyffredin sy'n anfwriadol yn creu llwyth gwaith, anghysondeb a phwysau cyllidebol. Byddwch yn edrych pam y mae'r patrymau hyn yn ymddangos, sut maen nhw'n cyfyngu ar gapasiti eich tîm, a'r newidiadau syml hynny sy'n gwella eglurder, diwylliant ac sydd yn gost-effeithiol. Byddwch yn cael enghreifftiau, gweithgareddau a syniadau ymarferol y gallwch eu defnyddio ar unwaith. Yn ddelfrydol ar gyfer arweinwyr sydd eisiau diwrnodau tawelach, timau cryfach a llai o wastraff ar eu cyllideb.



Cyflwynir gan:

**Sonia Gill**
Sylfaenydd a Chyfarwyddwr, Heads Up Limited

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

## 10:30 - 11:20

### "Wellbeing is a Work of Heart" – Gofalu am eich lles eich hun er mwyn i chi allu gofalu am eraill.

Ymunwch â Nina Jackson, Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Llesiant Rhyngwladol mewn sesiwn yn llawn syniadau ymarferol, strategaethau a deunyddiau i gefnogi eich lles eich hun yn ogystal â lles eich plant a'ch pobl ifanc.



Cyflwynir gan:

**Nina Jackson**
Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Llesiant Rhyngwladol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

### Hunaniaeth awtistig – Iechyd meddwl a chorfforol

Mae ymchwil wedi dangos bod derbyn hunaniaeth awtistig yn gwella canlyniadau iechyd meddwl ac iechyd corfforol i bobl awtistig, ond ni allwn orfodi rhywun i dderbyn hunaniaeth sydd yn aml yn cael ei wrthod gan eraill. Bydd y seminar yn edrych ar y daith y mae pobl yn ei gwneud tuag at hunaniaeth awtistig, ac yn archwilio a ydyw'n berthnasol i iechyd meddwl a iechyd corfforol. Byddwn hefyd yn edrych ar y rôl y mae ysgolion yn ei chwarae yn y daith hon.



Cyflwynir gan:

**Dr Jo Grace**
Ymgynghorydd – The Sensory Projects

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

### Sut i fod yn berson hapus

Mae'r sesiwn yn edrych ar beth sydd ei angen mewn gwirionedd i fod yn hapus mewn bywyd a gwaith. Yn seiliedig ar anerchiad poblogaidd, gweithdy a dulliau hyfforddi Dave, mae'n rhannu syniadau ymarferol sy'n deillio o seicoleg, adrodd straeon a phrofiad bywyd. Mae'n helpu addysgwyr i ddod o hyd i ffyrdd syml o ofalu am eu lles eu hunain wrth greu amgylcheddau hapusach i bawb. Nid yw'n ymwneud â phositifrwydd ffug nac ychwaith yn cynnig yr un datrysiad i bawb, ond deall beth sydd ei angen i sicrhau hapusrwydd ym mywyd dyddiol a gwaith. Cewch fewnwelediadau defnyddiol, straeon go iawn, a chyngor gonest bod newidiadau bach yn gwneud gwahaniaeth mawr.



Cyflwynir gan:

**Dave James**
Siaradwr Proffesiynol, Siaradwr TEDx, Hyfforddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

### Deall a chefnogi plant a phobl ifanc gyda diagnosis deuol o ADHD ac awtistiaeth.

Yn y sesiwn hon, byddaf yn edrych ar y cynnydd yn nifer y diagnosis o AuDHD. Mae astudiaethau'n awgrymu bod rhwng 30–50% o blant a phobl ifanc sydd â'r naill ddiagnosis hefyd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y llall. Bydd y sesiwn yn edrych ar sut yr ydym yn deall y diagnosis deuol hwn—ydy o'n ddau gyflwr ar wahân? Ydy'r cyflyrau'n gwrthdaro? Neu, yn fwy realistig, a ydy o'n gyflwr niwrowybyddol unigryw lle mae'r elfennau awtistig a'r elfennau ADHD yn golygu y byddant yn ymddangos yn wahanol?
Bydd y sesiwn yn cynnig strategaethau ymarferol i weithwyr addysg, gan gynnwys ystyried yr amgylchedd, cof, anghenion synhwyraidd, a ffyrdd o reoleiddio a dal sylw.



Cyflwynir gan:

**Colin Foley**
Prif Swyddog Gweithredol, Neurodiversity Training UK

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

## 10:30 - 11:20

### Cefnogi presenoldeb i ddisgyblion sy'n derbyn 'pupil premium'

Mae'r seminar ymarferol hon yn edrych ar ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at bresenoldeb isel ymhlith disgyblion dan anfantais. Bydd cyfranogwyr yn edrych ar ymyriadau effeithiol sydd wedi'u targedu i fynd i'r afael â'u hanghenion unigryw gan adeiladu partneriaethau cryf â theuluoedd ac asiantaethau allanol. Mae'r sesiwn yn darparu strategaethau i greu amgylchedd ysgol gadarnhaol a chynhwysol ac yn dangos sut i fonitro data presenoldeb yn effeithiol er mwyn nodi tueddiadau a llywio strategaethau.



Cyflwynir gan:

**Stephen Burnage**
Ymgynghorydd Addysg Ryngwladol, Awdur ac Arolygydd

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

### 10 ffordd i wella ysgrifennu yn eich ysgol

Ydy eich disgyblion yn cael trafferth rhoi pensil ar bapur? Ydych chi wedi blino clywed "Dwi'm yn gwybod be' i 'sgwennu"? Pan fyddan nhw o'r diwedd yn dechrau ysgrifennu a ydy'n her iddyn' nhw gwblhau'r dasg ysgrifennu? Ymunwch â'r sesiwn hon i ddarganfod sut i fynd i'r afael a chymell eich awduron ifanc! Byddwch yn dysgu sut i sefydlu trefn ysgrifennu ddyddiol, gwella stamina ysgrifennu a chymell diddordeb yn eich awduron mwyaf amharod, gan eich paratoi chi i danio eu dychymyg a'u creadigrwydd bob dydd!



Cyflwynir gan:

**Simon Blower**
Cyd-sylfaenydd – Pobble Education

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

## 10:30 - 11:20

### Cyflwyno a siarad gyda hyder a dylanwad

Yn y sesiwn ddeinamig hon, byddwch yn darganfod sut i gyflwyno eich syniadau a'ch barn gydag eglurder, hyder ac effaith. Gan ddefnyddio methodoleg SuperStar Communicator™, byddaf yn eich arwain drwy elfennau hanfodol cyfathrebu pwrpasol—deall eich cynulleidfa, strwythuro negeseuon yn effeithiol, paratoi i bwrpas, perfformio hefo hyder, a defnyddio eich llais gydag awdurdod. Bydd addysgwyr yn dysgu technegau ymarferol i ymgysylltu ag eraill, dylanwadu ar wneud penderfyniadau, a sicrhau bod eu harbenigedd yn cael ei glywed a'i barchu. Bydd cyfranogwyr yn gadael gyda mwy o hyder a chasgliad o strategaethau syml ond pŵerus i gyfathrebu'n fwy effeithiol mewn cyfarfodydd, cyflwyniadau a sgyrsiau bob dydd.



Cyflwynir gan:

**Susan Heaton-Wright**
Sylfaenydd - SuperStar Communicator

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

### Dyslecsia a fi – deall dyslecsia ar gyfer staff addysg

Byddwn yn datblygu eich dealltwriaeth o ddyslecsia a'r heriau a wynebir mewn addysg, gan edrych ar y canllawiau a'r diffiniadau diweddaraf. Bydd dulliau ac addasiadau'n cael eu hystyried a'u rhannu i sicrhau ymgysylltiad cadarnhaol i bawb.



Cyflwynir gan:

**Karen Ferguson**
Hyfforddwr NSM Training & Consultancy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

## 10:30 - 11:20

SEMINAR ADY

### Ffyrdd o rymuso eich CADY (ALNCO/SENCO)

Ffyrdd o sicrhau bod Penaethiaid ac Uwch Arweinwyr yn gweithredu fel 'Ceidwaid Porth'('Gatekeepers') ar gyfer y CADY yn eu hysgol fel fod pawb yn siarad yr un iaith ADY.
Ar ôl y seminar hwn byddwch yn:
1. Ystyriedd ffyrdd o wella systemau sydd ar waith yn yr ysgol i gefnogi Cydgysylltwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol/Cydgysylltwyr Anghenion Addysgol Arbennig i gyflawni eu rôl yn effeithiol fel nad ydynt yn cael eu tynnu i mewn i bethau nad ydynt yn rhan o'u rôl.
2. Adnabod ffyrdd o gefnogi eu CADY trwy flaenoriaethu dull systematig a rennir gyda'r holl randdeiliaid.



Cyflwynir gan:

**Ginny Bootman**
'Arbenigwr SENDCO, SEND a Perthnasoedd, Awdur Independent Thinking On Being A SENDCO, Cydymaith Independent Thinking'

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

## 10:30 - 11:20

### Awgrymiadau gwych ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol

Bydd y sesiwn hon yn cynnig ffyrdd ymarferol i chi ar sut i fod yn fwy effeithiol yn yr ystafell ddosbarth er gwaethaf amodau heriol iawn, gan gynnwys pwysau aruthrol ar adnoddau a diffyg amser.

Bydd yn cynnwys:
1. 'The Golden Spiral of Teaching and Learning'
2. Strategaethau asesu 'Real Time' ('no more distance marking')
3. Sicrhau canlyniadau dysgu cynaliadwy



Cyflwynir gan:

**Gareth Coombes**
Ymgynghorydd Addysgol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

### Cymraeg creadigol: Patrymau iaith bob dydd

Darganfyddwch sut mae cerddoriaeth a chreadigrwydd yn trawsnewid y ffordd y mae plant yn dysgu a gwella eu Cymraeg. Mae'r seminar hwn yn amlygu dull hynod boblogaidd sy'n ymgorffori patrymau iaith bob dydd drwy ganeuon, rhythm a gweithgareddau creadigol. Trwy gyfuno alaw â symudiad, mae dysgwyr yn cofio patrymau allweddol yn haws wrth feithrin hyder a llawenydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Archwiliwch enghreifftiau ymarferol, clywch straeon o lwyddiant o ysgolion a chymerwch syniadau parod sy'n gwneud dysgu iaith yn fywiog, cynhwysol ac effeithiol. Bydd y sesiwn hon yn eich ysbrydoli i ddefnyddio cerddoriaeth a chreadigrwydd i ddod â'r Gymraeg yn fyw.



Cyflwynir gan:

**Carys Gwent**
Sylfaenydd Ffa-la-la

Iaith: **Cymraeg a Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 10:30 - 11:20

CYDAG

### Y Big Bocs Bwyd

Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn ysgol pob oed yn Nhorfaen ac maent wedi ymgymryd â phrosiect cyffrous er mwyn mynd i'r afael â lleihau effaith tlodi yn eu cymuned. Yn y sesiwn hon, fe fydd Helen Rogers yn cyflwyno rhesymeg, gweithredu ac effaith clodwiw y cynllun. Trwy'r Big Bocs Bwyd, mae Ysgol Gymrag Gwynllyw'n sicrhau bod 4 diben Cwricwlwm i Gymru, llais y dysgwyr, dysgu dilys ac addysg gymunedol yn greiddiol i'w gwaith gyda'u disgyblion cynradd ac uwchradd. Fe fydd Helen hefyd yn esbonio sut allwch chi efelychu'r prosiect gwbl wefreiddiol yma yn eich ysgol a'ch cymuned.



Cyflwynir gan:

**Helen Rogers**
Dirprwy Bennaeth - Ysgol Gymraeg Gwynllyw

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb ac Uwchradd**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

12:00 - 12:50

## Grymuso llythrennedd drwy dechnoleg creadigol

Mae technoleg yn aml yn cael ei weld fel rhwystr i wella canlyniadau llythrennedd. Fodd bynnag, yn y sesiwn yma bydd Mr P yn dangos sut y gall technoleg gael gwared ar y rhwystrau yma i blant a'u galluogi i ddefnyddio eu hysgrifennu yn greadigol ar gyfer amrywiaeth o gynnyrch amlgyfrwng.



Cyflwynir gan:

**Mr P (Lee Parkinson MBE)**
Athro Ysgol Cynradd ac Ymgynghorydd Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## O wybodaeth am drawma i ymateb i drawma

Taith fyr a chyflym o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Ymwybodol o Drawma a sut i roi cynllun ar waith i wneud gwahaniaeth. Theorïau sylfaenol Ysgolion a Chymunedau sy'n Ymwybodol o Drawma (Trauma Informed Schools and Communities) a strategaethau i fynd adref gyda chi.



Cyflwynir gan:

**Dr Coral Harper**
Cyfarwyddwr TISC, Cymru

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

---

12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

## Hyfforddiant mewn sgiliau cymdeithasol ar gyfer plant awtistig. Sut ydych chi wir yn ffitio i mewn?

Ydy hyfforddiant sgiliau cymdeithasol mewn addysg yn wirioneddol niwrogynhwysol? Edrych ar yr angen i ail-ddiffinio'r hyn a welwn fel hyfforddiant sgiliau cymdeithasol, i edrych ar anghenion pob Niwroteip, gyda'r bwriad o gynyddu dealltwriaeth a lleihau pryder. Gweithio tuag at amgylchedd Niwro-gynhwysol!



Cyflwynir gan:

**Tigger Pritchard**
Hyrwyddwr 'Neuroaffirming', Ymgynghorydd a Hyfforddwr

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

## Arwain ystafell ddosbarth niwroamrywiol.

Mae ystafelloedd dosbarth ledled Cymru yn dod yn fwy-fwy niwroamrywiol. Gall strategaethau sy'n cefnogi un niwroteip fod yn wahanol i'r rhai sy'n cefnogi un arall. Felly, sut mae addysgwyr yn llywio hyn ac yn arwain at ystafell ddosbarth gynhwysol i bawb? Bydd y sesiwn hon yn edrych ar hyn ac yn canolbwyntio ar sut y gallai darpariaeth o addasiadau rhesymol helpu. Hefyd, sut y gall addysgwyr strwythuro hyn o fewn eu cynllunio a'r diwylliant y maent yn ei greu yn eu hystafell ddosbarth. Bydd y sesiwn yn canolbwyntio'n benodol ar gynllunio a pharatoi gwersi, llythrennedd, cyfathrebu ac ymgysylltu.



Cyflwynir gan:

**Colin Foley**
Prif Swyddog Gweithredol, Neurodiversity Training UK

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

---

12:00 - 12:50

## Cyfathrebu gyda dylanwad: Helpu athrawon i ysbrydoli, dylanwadu a chael eu clywed

Fel addysgwyr, rydym yn ofalgar iawn am ein myfyrwyr ac yn ymdrechu i wneud ein gorau glas. Fodd bynnag rydym yn aml yn wynebu sefyllfaoedd lle nad yw ein harbenigedd yn cael ei werthfawrogi'n llawn—boed hynny'n rhieni yn gofyn "Beth mae hi'n ei wybod?" neu randdeiliaid ac arbenigwyr allanol yn cwestiynu ein barn. Yn y cyflwyniad effeithiol hwn, rwy'n archwilio pam nad yw eraill bob amser yn ein gweld yn gredadwy, beth yw gwir ystyr hygrededd, a sut i gyfathrebu gyda hyder.
Bydd mynychwyr yn gadael gyda strategaethau ymarferol a thechnegau syml ond pŵerus i gynnal eu proffesiynoldeb, eu harbenigedd a'u hawdurdod yn gyson—gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u parchu.



Cyflwynir gan:

**Susan Heaton-Wright**
Sylfaenydd - SuperStar Communicator

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## *'From drifting to shifting as leaders-conscious leadership and how it works in our organisations'*

Bydd Julie yn defnyddio syniadau Jim Dethmer 'Conscious Leadership' i sefydlu ein hunain fel arweinwyr ac ystyried sut y gallwn newid i feddwl yn chwilfrydig a hyfforddi i wella ein lles ein hunain. Byddwn yn ystyried sut mae'r newid hwn wedyn yn effeithio ar y rhai yr ydym ni'n eu harwain. Bydd hwn yn weithdy rhyngweithiol lle bydd cyfranogwyr yn cael eu trochi mewn syniadau hyfforddi i edrych ar y themâu a rennir.



Cyflwynir gan:

**Julie Rees**
Hyfforddwr Arweinyddiaeth Gweithredol – Making Stuff Better MSB

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Arweinwyr canol ac uwch**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

## Adnabod Anghenion Addysgol Arbennig a'i effaith ar gynnydd, adnoddau a llesiant

Bydd y sesiwn hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd adnabod ac ymarfer ADY a'i effaith ar adnoddau, cynnydd a lles cymuned yr ysgol.
Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn bwnc mawr wrth i'r darlun o gynhwysiant esblygu, ac mae cymaint o arweinwyr ysgolion yn ymgodymu â chwestiynau ynghylch adnoddau, cynnydd disgyblion a lles staff.
Yn y seminar byddaf yn tynnu sylw at bwysigrwydd adnabod yr anghenion sy'n arwain at y gefnogaeth gywir fydd wedi'i dargedu i gefnogi'r ffactorau uchod. Byddaf yn trafod yr elfennau o ADY sy'n cael eu hesgeuluso fwyaf, a sut maen nhw'n cyfrannu fwyaf at gynnydd a datblygiad disgyblion.



Cyflwynir gan:

**Emma Noel Pinnock**
Prif Swyddog Gweithredol - The Essential Education Group

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Deall casineb at wragedd (misogyny) a diwylliant 'incel'

Deall dylanwad casineb menywod ar-lein a sut mae ideolegau niweidiol yn cael eu lledaenu trwy gyfryngau cymdeithasol, gemau a fforymau ar-lein. Edrych ar y cysylltiad rhwng casineb at fenywod, perthnasoedd â chyfoedion, a diwylliant yr ysgol a sut i hyrwyddo cydraddoldeb a pharch rhwng y rhywiau. Dysgu strategaethau i herio ac addysgu pobl ifanc er mwyn annog meddwl beirniadol a gwerthoedd cymdeithasol cadarnhaol. Adnabod arwyddion radicaleiddio a chredoau eithafol a all arwain at agweddau ac ymddygiadau niweidiol.



Cyflwynir gan:

**Ella Savell-Boss**
Ymgynghorydd Diogelu

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Gwella darllen ar gyfer pawb drwy ddeallusrwydd artiffisial (AI): Dileu rhwystrau, codi disgwyliadau

Gyda'r cymhlethdod cynyddol o anghenion ar draws sefydliadau a'r symudiad cenedlaethol tuag at addysgu addasol a llythrennedd cynhwysol, mae'r sesiwn yn dangos sut y gall deallusrwydd artiffisial (AI) a thechnoleg gynorthwyol ddileu rhwystrau darllen tra'n cynnal uchelgais. Wedi'i seilio ar Ddylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu (Universal Design for Learning, UDL) ac ymchwil gyfredol i lythrennedd, byddwch yn edrych ar sut i gynllunio tasgau darllen sy'n hygyrch, wedi'u cyd-greu, eu personoli ac yn ddatblygiadol briodol. Byddwn yn edrych ar sut i gefnogi datgodio, rhugl der a gwella dealltwriaeth drwy UDL a llythrennedd cynhwysol. Y neges yw nad ydym yn lleihau'r her, ond yn dileu'r rhwystr fel y gall pob dysgwr gael mynediad at destunau uchelgeisiol a gwneud cynnydd.



Cyflwynir gan:

**Dr Sarah Moseley**
Ymgynghorydd Llythrennedd Cynhwysol, Niwroamrywiaeth ac Anghenion Addysgol Arbennig

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Rheoli'r ystafell ddosbarth: yr allwedd i hunan-arweinyddiaeth

Mewn byd sy'n cael ei ddylanwadu fwyfwy gan ddeallusrwydd artiffisial (AI), sut allwn ni feithrin yr ystod lawn o ddeallusrwydd dynol yn ein hystafelloedd dosbarth? Dyma'r pwyntiau allweddol er mwyn i blant ffynnu yn y dyfodol. Beth ydyn nhw? Deallusrwydd moesol/moesegol; deallusrwydd rhyngbersonol a mewnbersonol; deallusrwydd emosiynol; deallusrwydd beirniadol; deallusrwydd creadigol; deallusrwydd cinesthetig. Gall deallusrwydd artiffisial roi gwybodaeth i ni, ond ni all ail-greu yr agweddau hyn o'r ymennydd sy'n naturiol mewn pobl, felly mae'n rhaid inni feithrin y plant i fod yn gwbl ymwybodol o gymhlethdodau'r byd , fel y gallant lywio a sefydlu eu Hunan-arweinyddiaeth.



Cyflwynir gan:

**Dr Neil Hawkes**
Sylfaenydd VbE

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Meithrin cymeriad a sgiliau hanfodol drwy ddysgu yn yr awyr agored

Bydd y sgwrs yn edrych ar sut mae addysg awyr agored yn cefnogi datblygiad cymeriad y plant, gwella gwydnwch a dysgu bod yn annibynol. Trafodir pam fod amser heb sgriniau yn bwysig a'r pŵer mewn natur. Gan edrych ar newidiadau o fewn y maes a'i 20 mlynedd o brofiad yn y sector, bydd Nigel yn rhannu enghreifftiau ymarferol a defnyddiol y gall athrawon eu hintegreiddio i'r cwricwlwm ysgol, ynghŷd â ffyrdd cost-effeithiol i drefnu tripiau preswyl sy'n hybu llesiant a diddordeb y disgyblion.



Cyflwynir gan:

**Nigel Miller**
Prif Weithredwr (CEO) - Active Learning Centre

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12:00 - 12:50

## Adeiladu eich tîm lles meddwl '(Mental Wealth') ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth gryf

Mae addysgu ac arweinyddiaeth yn gofyn am egni emosiynol a meddyliol enfawr —ac ni fedrwch gyflawni hyn ar eich pen eich hun. Mae'r sesiwn hon yn edrych ar sut i adeiladu Tîm Lles Meddwl (Mental Wealth Team') sy'n cryfhau gwydnwch ac yn lleihau'r pwysau y mae addysgwyr yn aml yn ei gario'n dawel. Rydym yn canolbwyntio ar bedair elfen graidd: 'Self-Care, Coaching, Professional Networks, and Mastermind-style peer support' Byddwn yn edrych ar enghreifftiau go iawn o'r sector addysg, a sut i greu 'Power Team' sy'n cynnig her, atebolrwydd, persbectif, a chefnogaeth wirioneddol drwy'r adegau da a drwg yn ystod y flwyddyn academaidd.



Cyflwynir gan:

**Mike Pagan**
Rheolwr Gyfarwyddwr – 'Breaking Frontiers Ltd'

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

## 12:00 - 12:50

SEMINAR ADY

### *'Myth busting AAC and what that means for supporting autistic children in your classroom'*

Mae defnyddio AAC (augmentative and alternative communication) a chyfathrebu aml-fodd yn cael ei gydnabod yn eang fel dull hanfodol i gefnogi plant i gyfathrebu. Fodd bynnag gall awgrymiadau ar sut i wneud hynny yn y dosbarth fod yn ddryslyd. Yn y gweithdy hwn byddwn yn archwilio beth yw'r ddealltwriaeth bresennol o AAC ac yn dad-wneud rhai mythau a all gyfyngu mynediad at AAC drwy rannu gwybodaeth a gasglwyd yn gymunedol ac ymchwil gyfredol. Bydd ffocws penodol ar gefnogi plant awtistig, ac ar ffyrdd eang i gefnogi eu dulliau cyfathrebu, eu gallu i wneud dewisiadau a hybu annibyniaeth.



Cyflwynir gan:

**Kim Mears**
Therapydd iaith a lleferydd .BSc (hons), MEd (inclusive practice)

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

## 12:00 - 12:50

### Llyfrau darllen er pleser i blant ag anghenion dysgu ychwanegol

Trosolwg o brosiect newydd cyffrous i gyhoeddi llyfrau Cymraeg gwreiddiol i blant rhwng 7 a 12 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Prosiect dan nawdd Adnodd i gyhoeddi 24 llyfr darllen er pleser ac adnoddau dysgu, a chyfle arbennig i weld rhagflas o gyfrolau'r gyfres.

Mae rôl arbenigwyr ADY yn greiddiol i'r prosiect, a bydd un o'r arbenigwyr yn dangos sut y mae'r llyfrau wedi eu mapio i'r Cynllun Darllen ADY Cenedlaethol, ac yn cyfeirio at y Canllaw i ymarferwyr addysg a rhieni, a'r adnoddau addysgol sy'n cyd-fynd â'r llyfrau.

Cyngor Llyfrau Cymru Books Council of Wales

Cyflwynir gan:

**Cynrychiolydd o'r Cyngor Llyfrau ac arbenigwr ADY**
Cyngor Llyfrau Cymru

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 12:00 - 12:50

CYDAG

### Pontio'r bwlch llythrennedd

Ymunwch â ni ar gyfer sesiwn ymarferol a deniadol i gryfhau llythrennedd a darllen yn ystod y pontio rhwng cynradd ac uwchradd.

- Darganfod teclyn llythrennedd deallus sy'n personoli cefnogaeth ac yn olrhain cynnydd.
- Dysgu strategaethau profedig ar gyfer trefn darllen dyddiol sy'n adeiladu hyder a rhuglder.
- Mynediad at adnoddau iaith strwythuredig i gefnogi dysgwyr amrywiol, gan gynnwys rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Gweld enghreifftiau go iawn, camau cyflym a chymryd rhan mewn trafodaeth ryngweithiol.
- Gadael gyda syniadau ymarferol i wneud y pontio'n llyfnach ac yn llwyddiannus.



Cyflwynir gan:

Atebol a CYDAG

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 13:30 - 14:40

### Adnoddau technolegol i drawsnewid eich dysgu

Bydd Mr P yn rhannu a dangos ei hoff adnoddau technolegol y mae'n ddefnyddio fel athro i leihau ei lwyth gwaith, gwella dysgu, a chael gwell canlyniadau. Bydd yn dangos amrywiaeth o apps, gwefannau, ac adnoddau eraill, gan sicrhau fod pob athro'n gadael hefo nifer o syniadau i'w defnyddio yn eu dosbarthiadau.



Cyflwynir gan:

**Mr P (Lee Parkinson MBE)**
Athro Ysgol Cynradd ac Ymgynghorydd Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

## 13:30 - 14:40

### Addysgu a dysgu metawybyddiaeth a hunanreoleiddio: Pecyn cymorth i athrawon

Bydd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar sut i ddefnyddio dulliau metawybyddiaeth a hunanreoleiddio i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Byddwch yn gadael gyda syniadau clir a strategaethau ymarferol i'w hychwanegu at eich pecyn cymorth athrawon.



Cyflwynir gan:

**Karen Ferguson**
Hyfforddwr NSM Training & Consultancy

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

## 13:30 - 14:40

### Eich llwybr cyflymaf i wella'ch ysgol — ac mae bron yn rhad ac am ddim

Nid yw gwelliant bob amser yn golygu mwy o arian - weithiau dim ond mwy o sylw sydd ei angen. Yn y sesiwn egnïol hon, mae Sonia Gill yn edrych ar sut mae ysgolion sy'n perfformio'n dda yn cyflymu eu cynnydd trwy amgylchynu eu hunain yn fwriadol hefo'r dylanwadau cywir. Fe welwch pam mai amlygiad yw un o'r ffyrdd rhataf a chyflymaf o feithrin gallu, sbarduno ffyrdd newydd o feddwl ac osgoi teimlo'n "sownd". Gyda straeon o ysgolion ledled y DU, tasgau myfyrio ymarferol a chamau nesaf syml ar gyfer sicrhau gwelliant yn eich ysgolion, bydd y sesiwn hon yn eich helpu i wella'n mewn ffordd fwy doeth, heb fod yn galetach — ac heb ymestyn eich cyllideb.



Cyflwynir gan:

**Sonia Gill**
Sylfaenydd a Chyfarwyddwr, Heads Up Limited

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

13:30 - 14:20

## Sut i greu tîm hapus

Mae'r sesiwn yn edrych ar yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd i greu timau hapus sy'n teimlo'n dda ac yn perfformio'n dda. Yn seiliedig ar anerchiadau gan Dave, gweithdai a rhaglenni hyfforddi, mae'n rhannu syniadau ymarferol sy'n seiliedig ar seicoleg, cyfathrebu a phrofiad byw. Mae'n helpu arweinwyr ac addysgwyr i ddeall y ffactorau sy'n cefnogi tîm hapus a sut i ymgorffori'r rhain i fywyd gwaith bob dydd. Nid yw'n ymwneud ag atebion cyflym na gimics, ond yn ymwneud â chreu diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, ac yn gallu perfformio ar eu gorau. Cewch straeon, mewnwelediadau defnyddiol, ac awgrymiadau syml y gallwch eu defnyddio ar unwaith.
(Mae'r sesiwn hon hefyd yn adeiladu ar fy sesiwn "Sut i fod yn berson hapus")



Cyflwynir gan:
**Dave James**
Siaradwr Proffesiynol, Siaradwr TEDx, Hyfforddwr
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

## Pam mae modelau rôl Cymreig yn bwysig

Sawl un ohonom all enwi person sy'n gysylltiedig â mudiad hawliau sifil Prydeinig? Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn dibynnu ar fodelau rôl o Loegr neu America, gan anwybyddu'r straeon pŵerus sydd ar ein stepen drws ein hunain. Mae'r seminar yn edrych ar pam mae modelau rôl Cymreig yn bwysig ar gyfer hunaniaeth, perthyn, ac ehangu dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth. Rydym yn edrych ar yr effaith mae gweld pobl o Gymru – gan gynnwys rhai ag anableddau, LGBTQ+, hil, crefydd a mwy – yn cael eu cynrychioli yn y cwricwlwm, a'r risgiau o ddibynnu ar naratif o fannau eraill. Er mwyn cefnogi athrawon sy'n aml yn cael trafferth dod o hyd i enghreifftiau Cymreig, byddwn yn cyflwyno ein pecyn adnoddau Modelau Rôl Cymreig newydd.



Cyflwynir gan:
**Ian Timbrell**
Sylfaenydd – 'More Than Flags and Rainbows'
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

## Edrych ar siarad 'dewisol' fel hunaniaeth gyfathrebu mewn ysgolion

Mae siarad yn ddewisol yn hunaniaeth gyfathrebu sydd wedi esblygu i ddisgrifio profiadau mewnol pobl sydd yn gallu siarad, ond yn profi cyfnodau pan nad ydynt yn dewis siarad. Gall hyn fod am ystod eang o resymau gan gynnwys gofid, llawenydd dwys, blinder a gorthrymder. Yn y gweithdy hwn byddwn yn edrych ar siarad dewisol ac unrhyw wahaniaethau sy'n gorgyffwrdd â mudandod dewisol ('selective mutism') Bydd y gweithdy hwn hefyd yn trafod ffyrdd ymarferol o gefnogi'r plant yn eich dosbarth/ysgol i archwilio eu hunaniaeth wrth gyfathrebu ac i gyfathrebu mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw. Mae hyn yn cynnwys deall capasiti cyfathrebu a defnyddio technoleg/apiau cyfathrebu.



Cyflwynir gan:
**Kim Mears**
Therapydd iaith a lleferydd .BSc (hons),
MEd (inclusive practice)
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

## Arwain darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) rhagorol

Bydd y seminar yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth wrth gyflawni arferion rhagorol o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
Yn ystod y sesiwn hon, byddaf yn trafod pwysigrwydd Gweledigaeth, arweinyddiaeth, adnoddau a chefnogi lles a gwybodaeth staff.



Cyflwynir gan:
**Emma Noel Pinnock**
Prif Swyddog Gweithredol - The Essential Education Group
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

13:30 - 14:20

## Rheoli'r storm berffaith: Presenoldeb, ymddygiad, ac iechyd meddwl

Mae'r seminar yn paratoi strategaethau ymarferol i staff ysgolion i fynd i'r afael yn rhagweithiol â'r sialensau sy'n gysylltiedig â phresenoldeb, ymddygiad ac iechyd meddwl. Yn seiliedig ar ymchwil diweddar, mae'r sesiwn yn edrych ar y nodweddion sy'n gweithio a'r rhai sy'n rhwystr ac sy'n effeithio ar ddysgwyr bregus. Byddwch yn dysgu strategaethau ymyrraeth cynnar, yn trafod dulliau ysgol gyfan o gydweithio, ac yn archwilio dulliau ar gyfer meithrin diwylliant o lesiant meddwl sy'n cefnogi pob disgybl.



Cyflwynir gan:
**Stephen C. Burnage**
Ymgynghorydd Addysg Ryngwladol, Awdur ac Arolygydd
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

13:30 - 14:20

SEMINAR ADY

## Y tu hwnt i ymddygiad: Gweld gwir ystyr mewn cyfathrebu niwroamrywiol yn y blynyddoedd cynnar

Pan fyddwn yn ail-lunio "ymddygiad heriol" fel gwybodaeth, mae popeth yn newid. Rydym yn gwahodd addysgwyr blynyddoedd cynnar i edrych ar ymddygiad o dan yr wyneb, a gweld y negeseuon y mae plant niwroamrywiol yn eu cyfleu trwy eu gweithredoedd, eu hemosiynau a'u hymatebion i'r byd o'u cwmpas. Gan edrych ar ddull sy'n cadarnhau niwroamrywiaeth, byddwn yn archwilio sut y gall gwahaniaethau synhwyraidd, ac anghenion heb eu diwallu, sbarduno gofid a sut i ymateb gyda chwilfrydedd, empathi, a chyswllt. Drwy enghreifftiau bywyd go iawn ac ymarferion myfyriol, mae'r sesiwn yn cefnogi addysgwyr i symud y tu hwnt i reoli ymddygiad tuag at gyd-reoleiddio ystyrlon. Byddwch yn gadael wedi'ch grymuso ac yn barod i greu amgylcheddau mwy diogel a phwrpasol lle mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall.



Cyflwynir gan:
**Cheryl Warren**
Hyfforddwr/Ymgynghorydd/Awdur
Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

**Darllen am seminarau**

**Ffurflen archebu grŵp**

13:30 - 14:20

## ‘GarageBand’ ar gyfer llafaredd: Llais creadigol, sgwrs a llythrennedd trwy dechnoleg cerdd.

Sesiwn ymarferol yn archwilio sut y gall “GarageBand” ar gyfer iPad roi hwb i lafaredd, llythrennedd a chreadigrwydd yn yr ystafell ddosbarth. Stiwdio recordio barod ac am ddim i ddechreuwyr gan gwmni Apple ydy Garage Band, ond dydy llawer o bobl yn gwybod ble i ddechrau! Bydd y mynychwyr yn llunio arddangosiadau rhyngweithiol byw - creu cerddoriaeth syml, recordio’r llais mewn ffordd hwyliog, a chreu podlediadau byr mewn munudau. Mae'r technegau chwareus, deniadol a chynhwysol hyn yn ysbrydoli hyd yn oed y disgyblion amharod hynny i greu cyswllt â'u lleisiau, gan arwain at bosibiliadau cyfoethog ar gyfer ysgrifennu. Bydd y rhain yn strategaethau ymarferol y gellid eu haddasu gan unrhyw athro i'w hymgorffori mewn darpariaeth draws-gwricwlaidd gyda dysgwyr o bob gallu, gan gynnwys ADY.



Cyflwynir gan:

**Alex Rees**
Ymgynghorydd Dysgu Creadigol

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

13:30 - 14:20

## Llesiant mewn natur: ail-gysylltu disgyblion yng nghanol heriau ôl-bandemig

Gan ganolbwyntio ar rôl gynyddol iechyd meddwl mewn ysgolion, bydd y sesiwn yn tynnu sylw at yr ymchwil ddiweddaraf ar ddysgu sy’n seiliedig ar fyd natur a sut mae trefnu tripiau preswyl i’r awyr agored yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant disgyblion. Bydd Nigel hefyd yn cynnig syniadau ymarferol i athrawon i wreiddio profiadau awyr agored yn ystyrlon, hyd yn oed o fewn amserlenni tynn, er mwyn cefnogi a rheoli emosiynau disgyblion,codi eu hyder a gwella eu cyswllt cymdeithasol.



Cyflwynir gan:

**Nigel Miller**
Prif Weithredwr (CEO) - Active Learning Centre

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

---

13:30 - 14:20

CYDAG

## Astudiaeth Achos

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin wedi cael eu cydnabod gan Estyn am arfer effeithiol sydd yn rhoi pwysigrwydd mawr ar weithio gyda rhieni a’r gymuned leol i godi hyder disgyblion i ddarllen trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r seminar hwn yn cyflwyno sut mae’r ysgol yn llwyddo i wneud hyn yn effeithiol.



Cyflwynir gan:

**Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin**
CYDAG

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

13:30 - 14:20

CYDAG

## Trochi effeithiol yn y blynyddoedd cynnar

Mae Dr Sian Wyn Siencyn yn arbenigwraig yn y blynyddoedd cynnar ac yn y seminar hwn bydd yn cyflwyno sut mae trochi plant di-Gymraeg yn effeithiol yn eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol.



Cyflwynir gan:

**Dr Sian Wyn Siencyn**
CYDAG

Iaith: **Cymraeg**| Cynulleidfa: **Blynyddoedd Cynnar, Trochi’r Gymraeg**

---

13:30 - 14:20 | 15:00 - 15:50

## Estyn: Ychwanegu gwerth at y system addysg

Sesiwn Saesneg 13:30 - 14:20 | Sesiwn Cymraeg 15:00 - 15:50

Mae’r seminar codi ymwybyddiaeth hwn yn darparu trosolwg o Estyn a sut mae ein gwaith yn cefnogi'r system addysg yng Nghymru. Mae’r sesiwn yn amlinellu cyfnodau allweddol arolygiad, yr ymweliadau interim, a’r hyn y gall darparwyr ei ddisgwyl o’n prosesau, tra hefyd yn tynnu sylw at adnoddau gwelliant ehangach i gefnogi datblygiad parhaus.

**Disgresiwn**
Sylwer: Bydd y sesiwn hon yn cael ei recordio gan Estyn.
Os nad ydych yn dymuno cael eich recordio, rhaid i chi hysbysu Estyn ymlaen llaw.

Estyn – Dros ddysgwyr, dros Cymru / For learners, for Wales

Cyflwynir gan

**Estyn**

Iaith: **Sesiwn Saesneg 13:30 - 14:20 | Sesiwn Cymraeg 15:00 - 15:50** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

## O Ymarfer cynhwysol i ddiwylliant cynhwysol - Dull ymarferol o gefnogi pob dysgwr

Mae diogelwch a chynhwysiant gwirioneddol yn yr ysgol yn seiliedig ar ymddiriedaeth, tegwch, a gweithdrefnau cyson sy’n grymuso plant, pobl ifanc a staff fel ei gilydd. Bydd creu perthnasoedd ystyrlon yn ganolbwynt i greu amgylcheddau mwy diogel a chynhwysol, gan bwysleisio’r egwyddor bod pobl yn dilyn pobl cyn dilyn rheolau. Mae diffinio diwylliant cynhwysol yn fuddiol ar gyfer pob dysgwr, gan sicrhau bod myfyrwyr ADY yn ffynnu ochr yn ochr â’u cyfoedion. Trwy ganolbwyntio ar egwyddorion effeithiol syml yn ymwneud ag ymddygiad, gall pob person ifanc deimlo eu bod yn werthfawr, yn cael eu parchu ac yn cael eu cefnogi.



Cyflwynir gan:

**Huw Lloyd**
Arbenigwr Ymddygiad - Crisis Prevention Institute

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# Seminarau a Siaradwyr

Pob seminar wedi ei achredu gan Agored Cymru

Darllen am seminarau

Ffurflen archebu grŵp

15:00 - 15:50

SEMINAR ADY

## *'From Add-On to All-In'*: Creu a gwreiddio diwylliannau sy'n cadarnhau niwroamrywiaeth yn y blynyddoedd cynnar

Nid rhywbeth rydyn ni'n ei wneud yw cynhwysiant gwirioneddol, ond pwy ydyn ni. Ac eto mewn llawer o leoliadau blynyddoedd cynnar, mae cynhwysiant yn dal i fod ar yr ymylon: mewn polisi, cynllun, neu berson sy'n gyfrifol am "Anghenion Addysgol Arbennig". Mae'r sesiwn hon yn herio'r meddylfryd hwnnw ac yn eich gwahodd i symud o 'add-on-to-all-in' gan wreiddio cynhwysiant yng nghalon eich dulliau. Gan edrych ar osod niwroamrywiaeth, fel sylfaen, rydym yn archwilio beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd i greu diwylliant o berthyn, lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei weld, ei werthfawrogi, a'i fod yn ddiogel i fod yn nhw eu hunain.



Cyflwynir gan:

**Cheryl Warren**
Hyfforddwr/Ymgynghorydd/Awdur

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb ac ADY**

15:00 - 15:50

## *'Burnout, broken belief systems & the silent collapse of educator confidence: The 2027 reset you cannot ignore'*

Wrth i ni ddynesu at 2027, mae addysgwyr yn wynebu argyfwng na all dim un polisi ei wella -sef pan fyddwch wedi chwythu eich plwc ('burnout') sy'n dinistrio hyder, cymhelliant a llesiant. Mae'r sesiwn yma'n datgelu'r pwysau emosiynol cudd sydd tu ôl i'r llwyth gwaith cynyddol a'r pwysau i "fod yn gryf". Darganfyddwch strategaethau wedi'u selio ar symudiadau, ail strwythuro'r meddylfryd, a dulliau i'ch cryfhau ac i ail-adeiladu eich hyder. Os collwch chi'r sgwrs yma, efallai y byddwch wedi colli y newid mwyaf fydd yn amddiffyn eich llesiant a'ch dylanwad yn y flwyddyn i ddod.



Cyflwynir gan:

**Courtney Orange**
*'The Wellbeing Motivator'*

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

## Newyddion ffug! Grymuso myfyrwyr mewn oes o gamwybodaeth – Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

Mewn byd lle mae cyfryngau cymdeithasol a dylanwadwyr yn aml yn llunio'r hyn y mae pobl ifanc yn ei gredu, sut allwn ni eu paratoi i feddwl yn feirniadol, cwestiynu'n hyderus, a gwahaniaethu ffaith oddi wrth ffuglen? Mae'r seminar ryngweithiol hon yn ymchwilio i strategaethau parod ac ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth ar gyfer addysgu ymwybyddiaeth o'r cyfryngau. Byddwch yn edrych ar weithgareddau deniadol sy'n helpu myfyrwyr i ddatgodio cynnwys digidol, adnabod rhagfarn, a dod yn ddefnyddwyr gwybodus a chrewyr cyfrifol o'r cyfryngau.



Cyflwynir gan:

**Nicky Hagendyk**
Ymgynghorydd Addysg

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

## Mesur llwyddiant mewn ataliad ac ymyrraeth briodol

Mae'r seminar ysbrydoledig a rhyngweithiol yma yn ailddiffinio sut mae llwyddiant yn cael ei fesur yn y gefnogaeth i ymddygiad, gan symud y ffocws o ddigwyddiadau i effaith. Byddwch yn dysgu sut i gofnodi a dathlu strategaethau ataliol ac ymyrraeth effeithiol sy'n adlewyrchu egwyddorion Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol. (Positive Behaviour Support) Drwy drafodaeth ddifyr ac ymarferol fel y 'Prevent and Protect Log' mae staff yn cael eu grymuso i feithrin hyder wrth ddefnyddio arferion rhagweithiol. Mae'r sesiwn yn meithrin diwylliant o ddiogelwch, cyswllt a lles, lle mae llwyddiant gwirioneddol yn cael ei adlewyrchu mewn staff tawel, medrus, sy'n gallu delio ag emosiynau, ac unigolion sydd wir yn teimlo eu bod yn cael eu deall, eu cefnogi a hynny'n ddiogel.



Cyflwynir gan:

**Karen Wilkinson**
Cynllunydd cynnwys dysgu ac uwch hyfforddwr
Training with Pride

Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

## Datblygu gofodau cynhwysol a dulliau dysgu addasol ar gyfer dysgwyr dwyieithog

Mae'r sesiwn hon yn datblygu dealltwriaeth o beth mae 'gofodau cynhwysol' yn ei olygu y tu hwnt i fynediad corfforol. Byddwch yn archwilio'r heriau a wynebir gan ddysgwyr gydag ADY ac yn darganfod strategaethau ar sut i osgoi anawsterau a hyrwyddo hygyrchedd a chynhwysedd i bawb, gan gynnwys dysgwyr sy'n ddwyieithog. Bydd hefyd yn cynnig y cyfle i rannu'r arferion gorau a chamau ymarferol i hyrwyddo newid.



Cyflwynir gan:

**Lisa Pinkerton**
Pennaeth Addysg - Widgit


Iaith: **Saesneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15:00 - 15:50

## Cyflwyniad i Addysg Cwtch – codi ymwybyddiaeth a hyder o ran 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb'

Mae prosiect Addysg Cwtch yn cefnogi athrawon, arweinwyr, a chymunedau ysgol gyfan i gyflwyno 'Addysg Cydberthnasau a Rhywioldeb' (ACRh) o ansawdd uchel yn hyderus. Ei nod yw helpu pob plentyn a pherson ifanc i feithrin perthnasoedd cadarnhaol sydd wedi'u gwreiddio mewn empathi, ymddiriedaeth a dealltwriaeth.

Cyflwyno'r prosiect - ariennir gan Lywodraeth Cymru. | Trafod yr ymchwil. | Cyflwyno'r hyfforddiant ac adnoddau sydd ar gael (am ddim ac yn ddwyieithog). | Trafod tasgau ACRh. | Gwneud gweithgarddau ACRh. Dangos gwefan 'Addysg Cwtch'. | Ateb cwestiynau.





Cyflwynir gan:

**Sarah Yates -** Cynghorydd Addysg Cwtch Abertawe
**Kayleigh Lloyd Thomas** – Cynghorydd Addysg Cwtch Sir Benfro

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

# PWYSIG

Byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau gan Eventbrite o fewn pythefnos i gyflwyno eich ffurflen gofrestru, felly **cadwch yr e-bost hwn yn ddiogel.**

Bydd angen i chi sganio'r côd QR o'ch e-bost cadarnhau gwreiddiol pan fyddwch yn cyrraedd y sioe.

**Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn gwirio hyn ymlaen llaw ac yn cysylltu â ni ar unwaith os nad ydych wedi derbyn eich e-bost cadarnhau archeb.**

Os nad oes gennych eich e-bost cadarnhau / côd QR, bydd angen i chi ymweld â'r 'Ddesg Wybodaeth' ar y diwrnod, â allai ohirio eich mynediad.



*"Mae'r Sioe Addysg yng Nghaerdydd yn darparu diwrnod HMS gwerthfawr i gefnogi datblygiad proffesiynol athrawon a chymorthyddion."*

*"Mae'r Sioe Addysg yn cynnig DPP ymarferol, perthnasol ac ysbrydoledig i bob aelod o staff."*

# CADWCH Y DYDDIAD!

**8 HYD / OCT 2027 | UTILITA ARENA CAERDYDD / CARDIFF**

*"Ers mynychu'r Sioe Addysg Genedlaethol, rydym wedi gweld gwell lles staff, rheolaeth ymddygiad fwy cyson a mwy o hyder wrth gefnogi dysgwyr ADY."*

# TOCYNNAU SEMINARAU

| Pris archebu'n gynnar: | Pris cyn y Sioe: | Pris ar y Diwrnod: | Lawrlwytho! |
|---|---|---|---|
| **£10** + TAW<br>Ar gael hyd at hanner nos<br>MEH 26ain 2026 | **£15** + TAW<br>Ar gael hyd at hanner nos<br>MEDI 29ain 2026 | **£20** + TAW<br>Ar gael ar y diwrnod<br>HYD 2il 2026 | |

**50% i ffwrdd**

Cofiwch ein bod ni'n cynnig **50% i ffwrdd** o archebion ysgol gyfan/ colegau / sefydliadau am amser cyfyngedig. Lawrlwythwch y ffurflen archebu!

*Manteisiwch ar y cynnig yma cyn iddo ddod i ben!*

Agored Cymru

@agoredcymru

Y Sioe ADDYSG Genedlaethol

Yn ymgorffori'r Sioe AAA/ADY

PRIF NODDWR

Stondin 53 & 54

CYMWYSTERAU CENEDLAETHOL 14-16 NATIONAL QUALIFICATIONS

## O'r ystafell ddosbarth i yrfaoedd, rydym yma i helpu.

## Y Gyfres Sgiliau

**Sgiliau Bywyd • Sgiliau Gwaith • Sgiliau Bywyd a Gwaith • Y Prosiect Personol**

Mae'r Gyfres Sgiliau yn rhoi sylfaen gref i ddysgwyr 14-16 oed ar gyfer addysg a chyflogaeth. Mae pob uned yn adeiladu sgiliau byd go iawn, yn hybu hyder, ac yn helpu pobl ifanc i baratoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

**Oeddech chi'n gwybod?**

**Mae llawer o'n hunedau Craidd Dysgu blaenorol wedi'u mapio i'r Gyfres Sgiliau newydd, siaradwch â'n tîm am ragor o wybodaeth!**

## TAAU


Mae TAAU yn gymwysterau ymarferol ar Lefel 1 a Lefel 2 sy'n canolbwyntio ar waith.

Maent yn cyflwyno dysgwyr i ddiwylliannau allweddol drwy ddysgu ymarferol ac asesiadau go iawn, ffordd ddiddorol o archwilio llwybrau gyrfa ac adeiladu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y camau nesaf.

## Cymwysterau Sylfaen

Mae Cymwysterau Sylfaen yn cynnig llwybr hyblyg a chynhwysol i ddysgwyr nad ydynt yn barod i ddilyn cymwysterau TGAU neu TAAU.

Maent yn canolbwyntio ar feithrin hyder a sgiliau craidd ar Lefel Mynediad a Lefel 1 trwy brofiadau dysgu ymarferol ac ystyrlon.




**Oeddech chi'n gwybod? Mae ein Pecyn Cymorth Asesu Digidol newydd sbon wedi'i adeiladu i gefnogi ysgolion gydag asesiadau mewnol.**

**Ydych chi eisiau ei weld? Cysylltwch â'n tîm!**

**Oeddech chi'n gwybod?**

## Cysylltwch â ni

I weithredu'r gyfres 14-16 newydd sbon yn eich ysgol chi, cysylltwch â ni drwy e-bostio: **datblygubusnes@agored.cymru**

Yr holl wybodaeth bwysig. **Popeth mewn un lle.**

Derbyniwch y **diweddariadau diweddaraf** yn syth i'ch mewnflwch!

**www.agored.cymru**
**datblygubusnes@agored.cymru**